







# Menter Ty'n Llan Cyfyngedig

## Rheolau'r Gymdeithas

Addaswyd, mabwysiadwyd a chadarnhawyd drwy  
Benderfyniad yng Nghyfarfod Arbennig yr Aelodau 13/09/2022

### LLOFNOD YR AELODAU

	Caryl Lewis	13/10/2022
	Huw Jones	13/10/2022
	Ian Hughes	13/10/2022
	Carys Aaron (ysgrifennydd)	13/10/2022



## Tabl Cynnwys

Cymal	Cynnwys
1	CYFLWYNO'R GYMDEITHAS A'R RHEOLAU
2	LLYWODRAETHU
3	AELODAU
4	CYFARFODYDD YR AELODAU
5	PWYLLGOR RHEOLI
6	ADRODD
7	NEWID
8	CYFALAF CYFRANDDALIADAU
9	GWEINYDDOL
10	DARPARIAETHAU CYCHWYN BUSNES
11	DARPARIAETHAU PONTIO
12	LLOFNODION
	ATODIAD



# 1 CYFLWYNO'R GYMDEITHAS A'R RHEOLAU

## Enw

- 1.1 **Menter Ty'n Llan Cyfyngedig** yw enw'r gymdeithas ac yn y rheolau hyn fe'i gelwir yn "y Gymdeithas".

## Cofrestru

Mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru o dan y gyfraith fel cymdeithas budd cymunedol gyda'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol**. Y swyddfa gofrestredig yw Bodryn, Llandwrog, Caernarfon LL54 5TN.

## Pam fod y Gymdeithas yn bodoli

- 1.2 Mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn cynnal busnes er budd y gymuned. Dyma Ddiben y Gymdeithas. Amcanion y Gymdeithas fydd:

**Cynnal busnes er budd y gymuned trwy brynu'r dafarn yn Llandwrog a enwir yn Tŷ'n Llan, a sefydlu yno fusnes tafarn a chanolfan sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n gadarn yn ariannol er mwyn dod â phobl ynghyd a hwyluso'r ddarpariaeth o ystod o wasanaethau wedi'u diffinio gan y gymuned.**

## Ymrwymadau

- 1.3 Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i wneud y canlynol:
- 1.3.1 masnachu er budd y gymuned, ac nid er budd preifat unrhyw un;
  - 1.3.2 cadw elw a defnyddio elw i hyrwyddo Diben y Gymdeithas.

## Dogfennau llywodraethu

- 1.4 Mae'r Rheolau hyn yn amlinellu sut y caiff y Gymdeithas ei pherchnogi, ei threfnu a'i llywodraethu.
- 1.5 Yn ychwanegol at y Rheolau, gall y Pwyllgor Rheoli wneud darpariaethau eraill sy'n ymwneud â sut mae'r Gymdeithas yn gweithredu, megis cod ymddygiad ar gyfer y Pwyllgor Rheoli. Ni ddylai darpariaethau o'r fath fod yn anghyson â'r Rheolau.
- 1.6 Yn y Rheolau
- 1.6.1 mae geiriau sy'n dechrau gyda phrif lythyren (megis Rheolau) yn cyfeirio at rywbeth penodol, ac mae'r Atodiad ar ddiwedd y Rheolau yn nodi'r rheol sy'n gwneud hyn yn amlwg; ac
  - 1.6.2 mae i eiriau sydd wedi eu hamlygu mewn llythrennau italig (megis **partner**) ystyr arbennig ac mae'r Atodiad yn rhestru'r holl eiriau hyn ac yn egluro'r hyn y maent yn ei olygu.



## 2 LLYWODRAETHU

### Trosolwg

2.1 Mae gan y Gymdeithas: Aelodau, Pwyllgor Rheoli, ac Ysgrifennydd.

### Aelodau

2.2 Trwy aelodaeth y mae'r Gymdeithas yn eiddo i'r gymuned. Mae aelodaeth yn rhoi mynediad i'r Aelodau at wybodaeth, yn rhoi llais iddynt yn y Gymdeithas, a'r cyfle i gael eu hethol i rôl gynrychioliadol o ran ei llywodraethu. Cyflawnir aelodaeth o'r Gymdeithas drwy gydymffurfio â gofynion Rheol 3.3, gan gynnwys isafswm y cyfranddaliadau a ddiffinnir yn Rheol 8.3.

#### Gwybodaeth

2.3 Mae gan Aelodau hawl i gael gwybodaeth, am y Gymdeithas, a'i busnes fel y darperir ar ei gyfer yn y rheolau. Gellir anfon neu gyflenwi gwybodaeth drwy ddulliau electronig yn amodol ar bolisi preifatrwydd y Gymdeithas.

#### Llais

2.4 Mae gan Aelodau lais ym materion y Gymdeithas fel y darperir yn y Rheolau, drwy gael

- 2.4.1 mynychu, siarad a chyflwyno cynigion i'w hystyried yng Nghyfarfodydd yr Aelodau;
- 2.4.2 pleidleisio yng Nghyfarfodydd yr Aelodau;
- 2.4.3 ethol cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Rheoli yng Nghyfarfodydd yr Aelodau.

#### Cynrychiolaeth

2.5 Yn amodol ar feini prawf cymhwyster, gall Aelodau sefyll etholiad i fod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli.

### Pwyllgor Rheoli

2.6 Yn amodol ar y Rheolau, mae'r Pwyllgor Rheoli yn rheoli materion y Gymdeithas a gall arfer ei holl bwerau.

2.7 Mae pob aelod o'r Pwyllgor Rheoli, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am bopeth a wneir gan neu yn enw'r Gymdeithas, ond ar y sail honno gall wneud y pethau canlynol

- 2.7.1 dirprwyo unrhyw un o'r pwerau a roddir iddo o dan y rheolau hyn, i unrhyw berson neu bwyllgor sy'n cynnwys aelodau o'r Gymdeithas, gyda'r fath delerau ac amodau sy'n addas yn eu barn hwy;
- 2.7.2 dirprwyo i unrhyw weithiwr neu denant y cyfrifoldeb am reolaeth feunyddiol rhywfaint neu'r cyfan o fusnes y Gymdeithas;
- 2.7.3 awdurdodi aelodau'r Pwyllgor Rheoli i ymdrin â materion penodol;
- 2.7.4 gwneud defnydd o'r gwasanaethau y gall gwirfoddolwyr eu cynnig.



### 3 AELODAU

- 3.1 Bydd y Gymdeithas yn annog pobl i ddod yn Aelodau, ac i'r perwyl hwnnw, bydd y Pwyllgor Rheoli yn gwneud y pethau canlynol
  - 3.1.1 cynnal Strategaeth Aelodaeth at y diben hwnnw;
  - 3.1.2 adrodd i'r Aelodau yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau ar gyflwr aelodaeth y Gymdeithas ac ar y Strategaeth Aelodaeth.
- 3.2 Aelodau'r Gymdeithas yw'r rhai y mae eu henwau wedi'u rhestru yn ei Chofrestr Aelodau.
- 3.3 Mae aelodaeth yn agored i unrhyw berson (boed yn unigolyn, yn gorff corfforaethol neu'n enwebai ar ran sefydliad anghorfforedig) sy'n cwblhau cais am aelodaeth yn y ffurf sy'n ofynnol gan y Pwyllgor Rheoli a:
  - 3.3.1 dros 16 mlwydd oed;
  - 3.3.2 yn cefnogi Diben y Gymdeithas;
  - 3.3.3 yn talu am y nifer lleiaf o gyfranddaliadau sy'n ofynnol yn ôl y Rheolau;
  - 3.3.4 yn cytuno i dalu tanysgrifiad blynyddol (os oes un); ac
  - 3.3.5 y mae ei gais yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Rheoli.
- 3.4 Gall y Pwyllgor Rheoli wrthod unrhyw gais am aelodaeth yn llwyr yn ôl ei ddisgresiwn.
- 3.5 Bydd Aelod sy'n gorff corfforaethol yn penodi cynrychiolydd i fynychu Cyfarfodydd yr Aelodau ar ei ran, ac fel arall i gymryd rhan ym materion y Gymdeithas. Bydd penodiad o'r fath yn cael ei wneud yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi ar ran corff llywodraethu'r corff corfforaethol.
- 3.6 Gall y Pwyllgor Rheoli rannu Aelodau'n etholaethau, yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, natur eu diddordeb yn y gymdeithas, neu unrhyw ffactor perthnasol arall. Os caiff Aelodau eu rhannu'n etholaethau:
  - 3.6.1 bydd yr Aelodau ym mhob etholaeth yn gallu ethol o leiaf un cynrychiolydd o blith eu nifer i'r Pwyllgor Rheoli;
  - 3.6.2 ni chaiff neb fod yn Aelod mewn mwy nag un etholaeth; a
  - 3.6.3 bydd yr Ysgrifennydd yn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch yr etholaeth y mae Aelod yn perthyn iddi.

#### **Dod ag Aelodaeth i Ben**

- 3.7 Mae person yn peidio â bod yn Aelod o'r Gymdeithas o dan yr amgylchiadau canlynol:
  - 3.7.1 maent yn ymddiswyddo'n ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd;
  - 3.7.2 os mai unigolyn ydyw, yn achos marwolaeth;
  - 3.7.3 os mai corff corfforaethol ydyw, os yw'n peidio â bod;
  - 3.7.4 os mai enwebai sefydliad anghorfforedig ydyw, os yw'r sefydliad yn enwebu rhywun arall yn eu lle;
  - 3.7.5 os cânt eu diarddel fel aelod o dan y Rheolau;
  - 3.7.6 os yw'r Ysgrifennydd yn eu tynnu oddi ar y Gofrestr Aelodau, ar ôl cwblhau gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Rheoli ar y sail bod y Gymdeithas wedi colli cysylltiad â'r Aelod ar ôl gwneud tair ymgais i gysylltu â'r Aelod o fewn cyfnod chwe mis.

Pan fo person yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o dan reol 3.7, byddant yn cael eu diarddel o'r Gofrestr Aelodau a bydd gwerth eu cyfranddaliadau yn cael eu dal fel benthyciad yn unol â rheol 8.7.



- 3.8 Gellir diarddel Aelod drwy benderfyniad a gymeradwywyd gan ddim llai na dwy ran o dair o aelodau'r Pwyllgor Rheoli sy'n bresennol ac yn bwrw pleidlais mewn Cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli. Dylid mabwysiadu'r weithdrefn ganlynol.
- 3.8.1 Caiff unrhyw Aelod gwyno i'r Ysgrifennydd yn ysgrifenedig fod Aelod arall wedi gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i fuddiannau'r Gymdeithas. Os yw'r Ysgrifennydd, yn aelod, am gwyno, dylai wneud hynny yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd.
  - 3.8.2 Os caiff cwyn ei gwneud, gall y Pwyllgor Rheoli ei hun ystyried y gŵyn yn dilyn cymryd unrhyw gamau a ystyrir yn briodol i sicrhau bod safbwynt pob Aelod yn cael ei glywed a gellir naill ai:
    - 3.8.2.1 ddiystyru'r gŵyn a pheidio cymryd unrhyw gamau pellach; neu
    - 3.8.2.2 am gyfnod heb fod yn hwy na deuddeg mis atal dros dro hawliau'r Aelod y cwynwyd amdano/amdani i fynychu Cyfarfodydd yr Aelodau ac i bleidleisio o dan y Rheolau;
    - 3.8.2.3 trefnu i ystyried yng Nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli benderfyniad i ddiarddel yr Aelod y cwynwyd amdano/amdani.
  - 3.8.3 Os ystyrir penderfyniad i ddiarddel aelod mewn Cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli, rhaid anfon manylion y gŵyn at yr Aelod y cwynwyd amdano/amdani ddim llai nag un deg pedwar diwrnod cyn y cyfarfod gyda gwahoddiad i ateb y gŵyn a mynychu'r cyfarfod.
  - 3.8.4 Yn y cyfarfod, bydd y Pwyllgor Rheoli yn ystyried tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn ac unrhyw dystiolaeth y gallai'r Aelod y cwynwyd amdani/amdani fod yn dymuno ei rhoi ger bron.
  - 3.8.5 Os bydd yr Aelod y cwynwyd amdano/amdani yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod heb reswm dyledus, caiff y cyfarfod fynd rhagddo yn ei (h)absenoldeb.
  - 3.8.6 Bydd person sy'n cael ei ddiarddel fel aelod yn peidio â bod yn aelod o'r adeg y gwna Cadeirydd y cyfarfod gyhoeddiad yn nodi'r penderfyniad i'w ddiarddel.
- 3.9 Ni chaiff unrhyw berson sydd wedi'i ddiarddel o fod yn aelod ei ail-dderbyn ac eithrio drwy bleidlais dim llai na dwy ran o dair o aelodau'r Pwyllgor Rheoli sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli.



## 4 CYFARFODYDD YR AELODAU

- 4.1 Bob blwyddyn, bydd y Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau, o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 4.2 Mae unrhyw Gyfarfodydd eraill yr Aelodau yn Gyfarfodydd Arbennig yr Aelodau.
- 4.3 Y Pwyllgor Rheoli (ac eithrio lle y darperir fel arall yn y Rheolau) sy'n cynnull Cyfarfodydd yr Aelodau, ac yn penderfynu ar ddyddiad, amser a lleoliad unrhyw Gyfarfod yr Aelodau a gohirio unrhyw gyfarfod. Gellir cynnal Cyfarfodydd Aelodau mewn unrhyw ddull a drwy unrhyw gyfrwng sy'n caniatáu i'r rhai sy'n mynychu glywed a rhoi sylwadau ar y trafodion. Pennir bod unrhyw berson sy'n mynychu fel hyn yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod boed a yw pawb sy'n bresennol wedi ymgasglu mewn un lle ai peidio.

### Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau

- 4.4 Bydd swyddogaethau Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau yn cynnwys:
  - 4.4.1 derbyn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol gan y Pwyllgor Rheoli; adroddiad ar berfformiad y Gymdeithas yn y flwyddyn flaenorol, a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn nesaf;
  - 4.4.2 derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Rheoli ar gyflwr yr aelodaeth a'r Strategaeth Aelodaeth;
  - 4.4.3 penodi unrhyw Archwilwyr ariannol, ac Archwilwyr allanol ar gyfer unrhyw agwedd arall ar berfformiad y Gymdeithas;
  - 4.4.4 datgan canlyniadau etholiadau o'r rhai a fydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli;
  - 4.4.5 Unrhyw fater arall sydd wedi ei gynnwys yn yr hysbysiad i gynnull y cyfarfod.

### Cyfarfodydd Arbennig yr Aelodau

- 4.5 Bydd cyfarfodydd arbennig yn cael eu cynnull gan yr Ysgrifennydd naill ai drwy orchymyn y Pwyllgor Rheoli, neu os caiff cais ysgrifenedig a lofnodwyd gan ddim llai na 12 Aelod neu 10% o'r holl Aelodau (pa un bynnag yw'r lleiaf) ei gyflwyno, wedi ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd, yn swyddfa gofrestredig y Gymdeithas neu ei anfon yn electronig. Yn absenoldeb yr Ysgrifennydd, gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor Rheoli ymgynnull Cyfarfod Aelodau Arbennig.
- 4.6 Rhaid i unrhyw gais ddatgan at ba ddiben y caiff y cyfarfod ei gynnull ac ai'r bwriad yw i Aelodau bleidleisio ar unrhyw ateb.
- 4.7 Rhaid cynnal cyfarfod arbennig a alwyd mewn ymateb i gais gan Aelodau o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyflwynir y cais yn y swyddfa gofrestredig. Ni ddylai'r cyfarfod benderfynu ar unrhyw fusnes ar wahân i'r hyn a nodir yn y cais ac yn yr hysbysiad i gynnull y cyfarfod.

### Hysbysiad o Gyfarfodydd Aelodau

- 4.8 Dylid rhoi rhybudd o Gyfarfod Aelodau o leiaf 14 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod, trwy hysbysiad ysgrifenedig wedi ei bostio art neu ei ddarparu yn bersonol neu ei anfon drwy Gyfathrebu Electronig at gyfeiriad neu gyfeiriad Cyfathrebu Electronig a roddwyd yn y Gofrestr Aelodau.
- 4.9 Rhaid i'r hysbysiad ddatgan a yw'r cyfarfod yn Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau neu'n Gyfarfod Arbennig yr Aelodau, gan nodi amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod, a nodi'r busnes y penderfynir yn ei gylch yn y cyfarfod, gan gynnwys manylion unrhyw gynigion y pleidleisir arnynt.
- 4.10 Gall saith deg pump y cant o Aelodau gytuno, trwy gydsynio yn ysgrifenedig, neu drwy gadarnhau drwy Gyfathrebu Electronig, i gynnal Cyfarfod Aelodau gyda llai o rybudd na'r un sy'n ofynnol dan Reol 4.8.



### Trefn Cyfarfodydd yr Aelodau

- 4.11 Mae Cyfarfodydd yr Aelodau yn agored i bob Aelod. Gall y Pwyllgor Rheoli wahodd unigolion penodol neu gynrychiolwyr o sefydliadau penodol i fynychu Cyfarfod Aelodau ond ni fyddant yn cael pleidleisio.
- 4.12 Cyn y gall Cyfarfod yr Aelodau drafod busnes, rhaid bod isafswm o Aelodau (cworwm) yn bresennol. Ac eithrio pan fo'r Rheolau hyn yn dweud fel arall mae cworwm yn bresennol os oes 50 Aelod sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod yn bresennol.
- 4.13 Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn hanner awr i'r amser a bennwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod, bydd y cyfarfod yn cael ei ddiddymu os mai'r Aelodau a wnaeth gais am gyfarfod. Bydd unrhyw gyfarfod arall yn cael ei ohirio tan yr un diwrnod yn ystod yr wythnos nesaf, ar yr un pryd ac yn yr un lle, neu tan pa amser a pha le bynnag y mae'r Pwyllgor Rheoli yn penderfynu. Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn hanner awr i'r amser a bennwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod gohiriedig, bydd nifer yr Aelodau sy'n bresennol yn ystod y cyfarfod yn ffurfio cworwm.
- 4.14 Bydd y Cadeirydd yn cadeirio Cyfarfod yr Aelodau. Os nad yw'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor Rheoli'n bresennol, caiff yr Aelodau sy'n bresennol ddewis un o'u plith i fod yn Gadeirydd (i'w benderfynu gan y mwyafrif o Aelodau).
- 4.15 Caiff y Cadeirydd, gyda chydsyniad y cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol, ac os cyfarwyddir ef/hi felly gan y cyfarfod, ohirio'r cyfarfod o un adeg i adeg arall ac o un lle i le arall. Ond ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod a ohirwyd ar wahân i'r busnes a adawyd heb ei orffen yn y cyfarfod y digwyddodd y gohirio ynddo. Nid oes angen rhoi hysbysiad o gyfarfod a ohirwyd oni bai bod y gohiriad am gyfnod o 21 diwrnod neu ragor.

### Pleidleisio yng Nghyfarfodydd yr Aelodau

- 4.16 Yn ddarostyngedig i'r Rheolau hyn ac i unrhyw Ddeddf Seneddol, bydd penderfyniad y pleidleisir arno mewn Cyfarfod yr Aelodau, ac eithrio pan fyddir neu pan gyfarwyddir cynnal pŵl, yn cael ei benderfynu trwy godi dwylo neu bleidlais trwy ddirprwy.
- 4.17 Caiff y Pwyllgor Rheoli gyflwyno trefniadau i Aelodau benodi dirprwy ar eu rhan yn unol â Rheol 4.22.
- 4.18 Bydd gan bob Aelod un bleidlais wrth godi dwylo. Lle mae trefniadau pleidlais trwy ddirprwy neu pleidleisio electronig wedi'u cyflwyno, bydd gan bob Aelod sydd wedi pleidleisio fel hyn un bleidlais. Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw.
- 4.19 Oni bai bod y Rheolau hyn neu Ddeddf Seneddol yn dweud fel arall, bydd pob penderfyniad yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwrwyd.
- 4.20 Yn amodol ar y Ddeddf, bydd penderfyniad ysgrifenedig wedi'i lofnodi neu ei gadarnhau drwy lythyr neu drwy Gyfathrebiad Electronig gan neu ar ran y mwyafrif gofynnol o'r Aelodau sydd â hawl am y tro i bleidleisio ar y penderfyniad perthnasol yn ddilys ac yn effeithiol fel pe bai wedi gwneud hynny, wedi'i basio mewn Cyfarfod Aelodau a gynullwyd yn briodol ac a gynhaliwyd ar yr amod bod copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi'i gyflwyno yn unol â'r Rheolau hyn i'r holl Aelodau a bod y mwyafrif gofynnol o'r Cyfranddallwyr y cyfeirir atynt yn Rheol 4.21 wedi cytuno yn unol â'r Rheolau hyn. Gall penderfyniad o'r fath gynnwys sawl dogfen ar yr un ffurf, pob un wedi'i lofnodi gan un neu fwy o Aelodau
- 4.21 At ddibenion Rheol 4.20, y mwyafrifoedd gofynnol yw:
- 4.21.1 yn achos penderfyniad arferol cynigiodd mwyafrif syml o Aelodau mewn eiddo a oedd yn Gyfarfod Aelodau;
- 4.21.2 yn achos penderfyniad sy'n gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau, o leiaf dwy ran o dair o'r Aelodau a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio pe bai'r cynnig wedi'i gynnig mewn cyfarfod cyffredinol a alwyd ac a sefydlwyd yn briodol; neu





4.21.3 yn achos penderfyniad sy'n gofyn am fwyafrif o dri chwarter y Cyfranddalwyr, o leiaf dri chwarter o'r Cyfranddalwyr a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio pe bai'r penderfyniad wedi'i gynnig mewn cyfarfod cyffredinol a alwyd ac a gyfansoddwyd yn briodol

### **Pleidleisiau trwy Ddirprwy**

4.22 Gall unrhyw Aelod sydd â hawl i fod yn bresennol a phleidleisio mewn Cyfarfod Aelodau benodi person arall, p'un a yw'n Aelod fel ei ddirprwy ai peidio, i fod yn bresennol a phleidleisio ar ei ran. Gellir penodi dirprwy drwy gyflwyno penodiad ysgrifenedig, a all fod ar ffurf Cyfathrebiad Electronig, i'r swyddfa gofrestredig, neu unrhyw le arall a ddewisir gan y Pwyllgor Rheoli a'i nodi yn hysbysiad y cyfarfod, o leiaf 24 awr cyn dyddiad y cyfarfod y mae'r dirprwy wedi'i awdurdodi i bleidleisio ynddo. Rhaid iddo gael ei lofnodi neu ei gadarnhau gan Gyfathrebu Electronig a'i anfon gan yr Aelod neu atwrnai a awdurdodwyd yn briodol. Bydd unrhyw ffurflen ddirprwy a gyflwynir yn hwyr yn annilys. Bydd unrhyw gwestiwn ynghylch dilysrwydd ddirprwy yn cael ei benderfynu gan Gadeirydd y cyfarfod a bydd ei benderfyniad yn derfynol.



## 5 PWYLLGOR RHEOLI

### Cyfansoddiad y Pwyllgor Rheoli

- 5.1 Ni fydd y Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llai na thri a dim mwy na 15 person, a chânt eu hethol yn bennaf gan yr Aelodau ac o blith yr Aelodau. Ni chaiff mwy na chwarter y Pwyllgor Rheoli gynnwys personau sydd wedi eu cyfethol gan y Pwyllgor Rheoli.
- 5.2 Os caiff Aelodau eu rhannu'n etholaethau, bydd y Pwyllgor Rheoli yn cynnwys personau a etholir gan yr Aelodau ac o blith yr Aelodau ym mhob etholaeth, a bydd y Pwyllgor Rheoli yn ymdrechu i sicrhau bod y cyfansoddiad yn adlewyrchu'r etholaethau amrywiol yn briodol.
- 5.3 Os yw nifer aelodau'r Pwyllgor Rheoli yn disgyn yn is na thri, dim ond at ddiben galw Cyfarfod yr Aelodau y gall weithredu, a'r busnes y cyfarfod hwnnw fydd ethol aelodau newydd i'r Pwyllgor Rheoli, ac nid at unrhyw ddiben arall.

### Ethol, penodi ac ymadael

- 5.4 Bydd aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli mewn swydd am gyfnod sy'n dechrau'n syth ar ôl y Cyfarfod yr Aelodau lle datganwyd iddynt gael eu hethol, a daw i ben ar ddiwedd trydydd Cyfarfod Blynnyddol yr Aelodau ar ôl hynny neu hyd y byddant yn ymddiswyddo neu'n cael eu diarddel o'r swydd yn unol â Rheol 5.10.
- 5.5 Gellir cyd-ethol aelodau gan y Pwyllgor Rheoli ar unrhyw adeg. Bydd cyd-etholwyr a benodir o dan y Rheol 5.5 yn gwasanaethu hyd y Cyfarfod Aelodau Blynnyddol nesaf ar ôl eu penodi lle gellir eu hethol.
- 5.6 Bydd person sy'n ymddeol o'i swydd yn gymwys i'w ail-ethol neu ei ail-benodi [am hyd at dri thymor olynol ac ar ôl hynny bydd yn rhaid eu hethol neu ei hail-benodi am gyfnod o 12 mis].
- 5.7 Cynhelir etholiadau yn unol â gweithdrefnau a bennir gan y Pwyllgor Rheoli.
- 5.8 Dim ond Aelod sydd dros yr oedran gofynnol statudol y gellir ei (h)ethol neu ei benodi/phenodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli.
- 5.9 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn mabwysiadu cod ymddygiad, a rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor Rheoli lofnodi copi o'r cod wrth eu penodi a chydymffurfio â theleerau cod o'r fath gydol eu tymor.
- 5.10 Bydd aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn gadael ei swydd ar unwaith os yw yn:
  - 5.10.1 ymddiswyddo yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd;
  - 5.10.2 peidio â bod yn Aelod;
  - 5.10.3 mynd yn fethdalwr neu'n ddarostyngedig i orchymyn anghymhwysu a wnaed o dan Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
  - 5.10.4 cael ei (d)diswyddo drwy benderfyniad a basiwyd gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli, ar y sail, ym marn y Pwyllgor Rheoli, bod achos difrifol o dorri cod ymddygiad y Pwyllgor Rheoli neu ei fod/bod heb gyflawni'r dyletswyddau yr oedd wedi cytuno i'w cyflawni neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo/iddi eu cyflawni ac nad yw er budd y Gymdeithas iddo/iddi barhau yn y swydd.
  - 5.10.5 cael ei (d)diswyddo gan fwyafrif syml o'r Aelodau mewn Cyfarfod Arbennig yr Aelodau, a bod yr hysbysiadau ar ei gyfer yn nodi y byddai diswyddo'r Cyfarwyddwr yn cael ei ystyried
- 5.11 Bydd y Pwyllgor Rheoli o'u plith yn ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd. Gallant hefyd ddewis ethol Ysgrifennydd yn unol â rheol 5.19. Bydd gan y swyddogion hynny'r swyddogaethau a bennir yn y Rheolau neu gan y Pwyllgor Rheoli, a byddant yn gwasanaethu nes iddynt gael eu diswyddo neu hyd nes y penodir rhywun yn eu lle gan y Pwyllgor Rheoli, neu hyd nes eu bod yn ymddiswyddo.



### Cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli

- 5.12 Bydd y Pwyllgor Rheoli'n cynnal unrhyw gyfarfodydd y mae'n eu hystyried yn briodol i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Gellir cynnal cyfarfodydd mewn unrhyw ddull a drwy unrhyw gyfrwng sy'n caniatáu i'r rhai sy'n mynychu glywed a rhoi sylwadau ar y trafodion. Pennir y bydd unrhyw berson sy'n mynychu fel hyn fod yn bresennol yn y cyfarfod boed â yw phawb yn ymgynnull mewn un lle ai peidio.
- 5.13 Bydd pob cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli yn cael ei gadeirio gan y Cadeirydd, neu os yw'n absennol gan yr Is-gadeirydd, neu os yw'n absennol gan aelod arall o'r Pwyllgor Rheoli a ddewisir gan y rhai sy'n bresennol.
- 5.14 Bydd tri aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn ffurfio cworwm.
- 5.15 Oni bai bod y Rheolau'n darparu fel arall, os penderfynir gwneud penderfyniad drwy bleidlais yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli, bydd y penderfyniad yn cael ei benderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau a fwrwyd. Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor Rheoli un bleidlais, ac os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan Gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.
- 5.16 Mae gan benderfyniad a lofnodwyd gan holl aelodau'r Pwyllgor Rheoli yr un effaith â phenderfyniad a basiwyd yn ddilys mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli. Gall pob aelod o'r Pwyllgor Rheoli lofnodi copi ar wahân o'r penderfyniad ac anfon copi wedi'i lofnodi at yr Ysgrifennydd drwy e-bost neu ddull electronig arall.

### Datgelu Buddiannau

- 5.17 Dylai aelod o'r Pwyllgor Rheoli ddatgan buddiant a pheidio â phleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater y mae ef/hi, neu ei briod neu ei **bartner/phartner** neu berthynas uniongyrchol, â buddiant ariannol personol neu fuddiant perthnasol arall ynddo. Os bydd yn pleidleisio, ni fydd y bleidlais yn cael ei chyfrif.

### Taliadau

- 5.18 Nid oes gan aelodau'r Pwyllgor Rheoli hawl i unrhyw dâl, ond gellir eu had-dalu am dreuliau rhesymol mewn cysylltiad â busnes y Gymdeithas.

### Ysgrifennydd

- 5.19 Bydd gan y Gymdeithas Ysgrifennydd a benodir gan y Pwyllgor Rheoli ac a all fod yn weithiwr cyflogedig. Gall y Pwyllgor Rheoli hefyd benodi dirprwy Ysgrifennydd (a all hefyd fod yn weithiwr) i weithredu fel Ysgrifennydd yn absenoldeb yr Ysgrifennydd. Bydd dyletswyddau'r Ysgrifennydd yn cael eu nodi'n glir yn ysgrifenedig a bydd y Pwyllgor Rheoli yn cytuno arnynt.
- 5.20 Mae'r Ysgrifennydd
  - 5.20.1 yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Rheolau ac unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r Pwyllgor Rheoli yn eu pennu;
  - 5.20.2 yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau unrhyw etholiadau sy'n cael eu disgrifio yn y Rheolau ac yn gyfrifol am eu cynnal;
  - 5.20.3 â disgresiwn llwyr i benderfynu ar unrhyw fater neu gwestiwn y dylai'r Ysgrifennydd benderfynu yn eu cylch yn unol â'r Rheolau.



## 6 ADRODD

### Paratoi Cyfrifon

- 6.1 O ran pob blwyddyn o gyfrifon, bydd y Pwyllgor Rheoli yn peri bod Cyfrifon Blynyddol yn cael eu paratoi a fydd yn cynnwys:
  - 6.1.1 cyfrif refeniw neu gyfrifon refeniw sy'n ymdrin yn unigol neu ynghyd â materion y Gymdeithas gyfan ar gyfer y flwyddyn honno ac sy'n rhoi darlun cywir a theg o incwm a gwariant y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn honno; a
  - 6.1.2 mantolen sy'n rhoi darlun cywir a theg ar y dyddiad hwnnw o gyflwr materion y Gymdeithas.

### Archwilwyr ac Archwilio

- 6.2 Yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau os oes gan y Gymdeithas, o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, y pŵer i benderfynu peidio â phenodi Archwilydd neu Archwilwyr i archwilio ei Chyfrifon Blynyddol, caiff penderfyniad ei gyflwyno i'r Aelodau i benderfynu a ydynt yn dymuno arfer y pŵer ai peidio.
- 6.3 Os bydd yr aelodau'n pleidleisio i ddatgymhwysu'r gofynion am archwiliad llawn, dylai'r Gymdeithas benodi cyfrifydd annibynnol neu archwilydd lleyg i baratoi adroddiad, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- 6.4 Pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu benderfyniad yr Aelodau, bydd y Gymdeithas yn penodi ym mhob blwyddyn Archwilydd neu Archwilwyr cymwysedig i fod yn Archwilwyr, a bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys iddynt.
  - 6.4.1 Bydd cyfrifon y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn honno yn cael eu cyflwyno iddynt i'w harchwilio fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.
  - 6.4.2 Bydd ganddynt bob hawl a dyletswydd mewn perthynas â chael hysbysiad o gyfarfodydd yr Aelodau, bod yn bresennol ynddynt, a hawl i gael llais ynddynt, mynediad at lyfrau, cyflenwad o wybodaeth, adroddiadau ar gyfrifon ac fel arall, fel y darperir gan y gyfraith.
  - 6.4.3 Ac eithrio pan ddarperir fel arall yn y Rheolau, cânt eu penodi gan Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau, a bydd darpariaethau'r gyfraith yn gymwys o ran ailbenodi a diswyddo ac o ran unrhyw benderfyniad sy'n diswyddo, neu'n penodi person arall yn eu lle.
  - 6.4.4 Pennir eu tâl gan y Pwyllgor Rheoli yn unol â'r Ddeddf.
- 6.5 Gall y Pwyllgor Rheoli lenwi unrhyw swydd Archwilydd wag achlysurol tan y Cyfarfod Aelodau canlynol nesaf.
- 6.6 Pan benodir Archwilydd i archwilio cyfrifon y flwyddyn flaenorol, caiff ei ailbenodi i archwilio cyfrifon y flwyddyn gyfredol hefyd oni bai:
  - 6.6.1 bod Cyfarfod Aelodau wedi penodi rhywun arall i weithredu neu wedi penderfynu na fydd yr archwilydd yn gweithredu; neu
  - 6.6.2 nid yw'r archwilydd am weithredu ac mae wedi dweud hynny wrth y Gymdeithas yn ysgrifenedig;
  - 6.6.3 nid yw'r person yn gymwys i weithredu;
  - 6.6.4 nid yw'r archwilydd yn gallu gweithredu;
  - 6.6.5 bod hysbysiad o fwriad i benodi archwilydd arall neu i ddiswyddo'r archwilydd wedi'i roi.
- 6.7 Rhaid rhoi dim llai nag wyth diwrnod ar hugain o rybudd ar gyfer penderfyniad i benodi person arall yn archwilydd, neu i wahardd archwilydd sy'n ymddeol rhag cael ei ailbenodi.
- 6.8 Bydd y Gymdeithas yn anfon copi o'r penderfyniad at yr archwilydd sy'n ymddeol a hefyd yn rhoi rhybudd i'r Aelodau ar yr un pryd ac yn yr un modd, os yn bosibl.



- 6.9 Os nad yw'n bosibl rhoi'r hysbysiad y cyfeirir ato yn Rheol 6.8 fel y nodir yn y Rheol honno, bydd y Gymdeithas yn rhoi hysbysiad drwy hysbysebu yn y papur newydd lleol o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod arfaethedig. Gall yr archwilydd sy'n ymddeol gyflwyno sylwadau i'r Gymdeithas y mae'n rhaid hysbysu'r Aelodau ohonynt o dan Adran 95 o'r Ddeddf.

### **Cyflwyno Cyfrifon**

- 6.10 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyflwyno Cyfrifon Blynyddol ac adroddiadau busnes a materion y Gymdeithas i Gyfarfodydd Blynyddol yr Aelodau.
- 6.11 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn rhoi Cyfrifon Blynyddol gerbron Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau sy'n dangos incwm a gwariant a chyflwr materion y Gymdeithas ar ddiwedd blwyddyn ariannol ddiweddaraf y Gymdeithas (neu unrhyw gyfnod arall y bydd y Pwyllgor Rheoli yn penderfynu arno) ac yn sicrhau bod gan Aelodau gyfleoedd i ofyn cwestiynau.

### **Cyhoeddi Cyfrifon a Mantolenni**

- 6.12 Yn ddarostyngedig i'r gyfraith, rhaid i'r Pwyllgor Rheoli beidio ag achosi i unrhyw gyfrif refeniw na mantolen gael ei gyhoeddi oni bai ei fod wedi'i archwilio'n flaenorol gan yr Archwilwyr oni bai bod y pŵer yn 6.2 i beidio â phenodi Archwilwyr wedi'i arfer ac yn lle hynny bod adroddiad cyfrifydd neu adroddiad archwilwyr lleyg wedi ei ddarparu. Rhaid i bob cyfrif refeniw a mantolen a gyhoeddir gael eu llofnodi gan yr Ysgrifennydd a chan ddau Aelod sy'n gweithredu ar ran y Pwyllgor Rheoli.

### **Copi o'r Fantolen i'w Arddangos**

- 6.13 Rhaid i'r Gymdeithas gadw copi o'r fantolen olaf, gan ei harddangos bob amser mewn man amlwg yn ei swyddfa gofrestredig. Gellir cadw copi mewn cyfeiriad arall hefyd.

### **Datganiad Blynyddol i'w anfon at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol**

- 6.14 Rhaid i'r Gymdeithas, o fewn yr amser a ganiateir gan ddeddfwriaeth ym mhob blwyddyn, anfon at y **Awdurdod Ymddygiad Ariannol** ddatganiad cyffredinol ar y ffurflen ragnodedig, a elwir yn ffurflen flynyddol, yn ymwneud â'i materion yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y ffurflen, ynghyd â chopi o'r canlynol:

- 6.14.1 datganiadau ariannol y Gymdeithas ar gyfer y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen; a
- 6.14.2 adroddiad yr Archwilwyr yn eu cylch os penodwyd Archwilwyr.

a bydd ffurflen flynyddol ddiweddaraf y Gymdeithas ar gael i unrhyw Aelod gan yr Ysgrifennydd o wneud cais ysgrifenedig yn rhad ac am ddim.



## 7 NEWID

### Newidiadau i Reolau

- 7.1 Ni wneir unrhyw reol newydd, ac ni chaiff unrhyw un o'r Rheolau ei newid, oni chaiff ei chymeradwyo gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau a fwriwyd mewn Cyfarfod Arbennig Aelodau.
- 7.2 Bydd hysbysiad o'r fath Gyfarfod Arbennig Aelodau yn pennu'r Rheolau i'w newid, ac yn nodi telerau'r holl newidiadau neu reolau newydd a gynigir.
- 7.3 Ni fydd unrhyw newid i unrhyw un o'r Rheolau ac ni fydd unrhyw reol newydd yn ddilys nes ei bod wedi'i chofrestru.
- 7.4 Gall y Pwyllgor Rheoli newid swyddfa gofrestredig y Gymdeithas. Bydd y Gymdeithas yn anfon hysbysiad o unrhyw newid o'r fath i'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol**.

### Cyfyngiad ar ddefnydd

- 7.5 Yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 29 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014:
  - 7.5.1 Mae holl asedau'r Gymdeithas yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar eu defnydd.
  - 7.5.2 Rhaid i'r Gymdeithas beidio â defnyddio na delio â'i hasedau ac eithrio:
    - 7.5.2.1 pan fo'r defnydd neu'r ymdriniad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at ddiben sydd er budd y gymuned;
    - 7.5.2.2 talu i Aelod o'r Gymdeithas werth eu cyfalaf cyfranddaliadau neu'r llog ar y cyfryw gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei dynnu'n ôl;
    - 7.5.2.3 er mwyn gwneud taliad yn unol ag adran 39 (trafodion ar farwolaeth enwebydd), 40 (darpariaeth ar gyfer diewyllysedd) neu 36 (taliadau mewn perthynas â phersonau sy'n analluog yn feddyliol) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;
    - 7.5.2.4 er mwyn gwneud taliad yn unol â Rheolau'r Gymdeithas i ymddiriedolwyr eiddo Aelodau sydd wedi methdalau neu, yn yr Alban, Aelodau y mae eu hystâd wedi'i hatafaelu;
    - 7.5.2.5 os yw'r Gymdeithas i gael ei diddymu neu ei dirwyn i ben, er mwyn talu ei chredydwy; neu
    - 7.5.2.6 trosglwyddo ei asedau i un neu fwy o'r canlynol:
      - (a) cymdeithas budd cymunedol ragnodedig y gwnaed ei hasedau yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn cymhwyso'r cyfyngiad hwnnw i unrhyw asedau a drosglwyddwyd felly;
      - (b) cwmni buddiannau cymunedol;
      - (c) landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â chyfyngiad ar ddefnyddio ei asedau sy'n cyfateb i gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn cymhwyso'r cyfyngiad hwnnw i unrhyw asedau a drosglwyddir felly;
      - (d) elusen (gan gynnwys cymdeithas budd cymunedol sy'n elusen); neu
      - (e) corff, a sefydlwyd yng Ngogledd Iwerddon neu mewn Gwladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig, sy'n cyfateb i unrhyw un o'r personau hynny.
  - 7.5.3 Bydd i unrhyw fynegiant a ddefnyddir yn y Rheol hon a ddiffinnir at ddibenion rheoliadau a wneir o dan adran 29 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a



Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yr ystyr a roddir gan y rheoliadau hynny.

#### Trosglwyddo Ymrwymadau

- 7.6 Caiff y Gymdeithas, drwy benderfyniad arbennig a basiwyd mewn Cyfarfod Arbennig yr Aelodau yn unol â'r Rheolau ac yn y ffordd sy'n ofynnol gan y gyfraith, gyfuno neu drosglwyddo ei ymrwymadau i unrhyw **gymdeithas** neu droi ei hun yn **gwmni**. Ni fydd unrhyw beth yn y Rheol hon yn rhoi'r hawl i'r Gymdeithas gyfuno, trosglwyddo ei hymrwymadau na throsi ei hun i'r math o gorff nad yw wedi'i restru yn Rheol 7.5.2.6.
- 7.7 Gall y Gymdeithas hefyd dderbyn trosglwyddiad o ymrwymadau ac asedau gan unrhyw **Gymdeithas** drwy benderfyniad y Pwyllgor Rheoli neu gyfarfod o'r Aelodau, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Rheoli.

#### Diddymu

- 7.8 Gellir diddymu'r Gymdeithas drwy Offeryn Diddymu neu drwy ddirwyn i ben yn y ffordd sy'n ofynnol gan y gyfraith. Os pery, wedi diddymu neu ddirwyn y Gymdeithas i ben yn solfent, ar ôl bodloni ei holl ddyledion a rhwymedigaethau ac ad-dalu'r cyfalaf cyfranddaliadau taledig, unrhyw asedau o gwbl, bydd asedau o'r fath yn cael eu trosglwyddo yn unol â'r darpariaethau uchod o dan y pennawd "Cyfyngiadau ar ddefnydd".
- 7.9 Yn amodol ar y darpariaethau hynny, bydd asedau o'r fath yn cael eu trosglwyddo i un neu ragor o sefydliadau cymunedol sy'n cefnogi nodau'r Gymdeithas a ddewisir gan yr Aelodau mewn Cyfarfod yr Aelodau, a all gynnwys (ond nid oes rhaid) unrhyw gymdeithas a sefydlwyd gan **Sefydliad Plunkett** at ddibenion creu, hyrwyddo a datblygu mentrau sy'n eiddo i'r gymuned.



## 8 CYFALAF CYFRANDDALIADAU

- 8.1 Mae gan y Gymdeithas gyfranddaliadau £100 yr un.
- 8.2 Gwneir cais am gyfranddaliadau i'r Pwyllgor Rheoli, yn ddarostyngedig i unrhyw uchafswm a ganiateir gan y gyfraith. Telir am gyfranddaliadau'n llawn ar gais neu yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor Rheoli, gellir talu am gyfranddaliadau fesul cyfran dros gyfnod o ddim mwy nag un flwyddyn galendr. Os na thelir yn llawn am y cyfranddaliadau ar ddiwedd y flwyddyn gall y Gymdeithas derfynu'r aelodaeth a dychwelyd yr holl arian i'r aelod.
- 8.3 Yr isafswm cyfranddaliadau fydd 1 cyfranddaliad. Gall y Gymdeithas wneud cynnig cyfranddaliadau cyhoeddus o bryd i'w gilydd, a gall unrhyw gynnig o'r fath bennu isafswm cyfranddaliadau.
- 8.4 Ni ellir trosglwyddo cyfranddaliadau ac eithrio ar farwolaeth neu fethdaliad, ac fe'u tynnir yn ôl ar ddisgrisiwn y Pwyllgor Rheoli yn unig yn unol â'r Rheolau fel a ganlyn:
  - 8.4.1 gall cyfranddaliadau gael eu tynnu'n ôl gan Aelodau sydd wedi eu dal am gyfnod o dair blynedd o leiaf neu unrhyw gyfnod arall y penderfyna'r Pwyllgor Rheoli arno;
  - 8.4.2 gwneir cais i dynnu'n ôl gyda dim llai na thri mis o rybudd, ar ffurflen a gymeradwyir gan y Pwyllgor Rheoli;
  - 8.4.3 caiff y Pwyllgor Rheoli bennu uchafswm y gellir ei dynnu'n ôl ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
  - 8.4.4 Rhaid i unrhyw gyfranddaliadau a dynnir yn ôl gael eu hariannu o elw masnachu, cronfeydd wrth gefn neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd a godir o blith yr Aelodau, a gwneir hynny yn ôl disgrisiwn llwyr y Pwyllgor Rheoli o ran buddiannau hirdymor y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd darbodus wrth gefn, ac ymrwymiad y Gymdeithas i fudd cymunedol. Os yw unrhyw gyfranddaliadau a dynnir yn ôl i gael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn, rhaid i'r Pwyllgor Rheoli fod yn fodlon:
    - 8.4.4.1 o ganlyniad i dynnu cyfranddaliadau o'r fath yn ôl, na fydd modd i'r Gymdeithas wedyn fethu â thalu (neu ryddhau fel arall) ei dyledion; a
    - 8.4.4.2 y bydd y Gymdeithas yn gallu talu (neu ryddhau fel arall) ei dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn yn union ar ôl yr achos o dynnu'n ôl.
  - 8.4.5 telir pob cyfranddaliad a dynnir yn ôl yn unol â pholisi'r Gymdeithas ar dynnu cyfranddaliadau'n ôl. Os nad oes polisi o'r fath yn bodoli, telir pob cyfranddaliad a dynnir yn ôl yn y drefn y derbyniwyd yr hysbysiadau, hyd at yr uchafswm tynnu'n ôl a bennir ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac ar ôl hynny ni ellir tynnu rhagor o gyfranddaliadau'n ôl tan y flwyddyn ariannol ganlynol;
  - 8.4.6 ac eithrio pan fo Aelod yn bwriadu derfynu ei aelodaeth, ni chaniateir iddo dynnu cyfranddaliadau'n ôl nes bod â llai na'r isafswm sy'n ofynnol gan y Rheolau;
  - 8.4.7 gall y Pwyllgor Rheoli, yn ôl ei ddisgrisiwn llwyr, hepgor yr hysbysiad sy'n ofynnol ar gyfer tynnu cyfranddaliadau'n ôl a chaiff gyfarwyddo gwneud taliad heb rybudd neu â'r fath hysbysiad byrrach sy'n briodol ym marn y Pwyllgor Rheoli;
  - 8.4.8 gall y Pwyllgor Rheoli atal dros dro yr hawl i dynnu cyfranddaliadau'n ôl naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, a naill ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol. Bydd yr ataliad yn gymwys i bob hysbysiad tynnu'n ôl sydd





- wedi dod i law ac sy'n parhau heb eu talu ar y pryd. Os yw'r ataliad am gyfnod penodol, gall y Pwyllgor Rheoli ei ymestyn o bryd i'w gilydd;
- 8.4.9 yn ystod unrhyw gyfnod pan fo'r hawl i dynnu cyfranddaliadau'n ôl wedi'i atal, caiff cyfranddaliadau Aelod ymadawedig, os yw'r Pwyllgor Rheoli yn cytuno, gael eu tynnu'n ôl gan eu cynrychiolwyr personol o roi'r fath hysbysiad sy'n ofynnol gan y Pwyllgor Rheoli;
- 8.4.10 gall y Gymdeithas ddiynnu swm rhesymol o'r fath i dalu costau gweinyddol tynnu cyfranddaliadau'n ôl o'r arian sy'n daladwy i Aelod pan dynnir cyfranddaliadau'n ôl.
- 8.5 Gall y Gymdeithas (ond nid yw o dan unrhyw rwymedigaeth i wneud) dalu llog i ddeiliaid cyfranddaliadau, fel iawndal am ddefnyddio cronfeydd o'r fath, yn amodol ar y canlynol:
- 8.5.1 rhaid i unrhyw daliad llog fod o elw masnachu a gwneir hynny yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor Rheoli gan ystyried budd hirdymor y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd darbodus wrth gefn ac ymrwymiad y Gymdeithas i fudd cymunedol;
- 8.5.2 bydd y Pwyllgor Rheoli yn pennu'r sail ar gyfer cyfrifo a thalu cyfradd y llog sydd i'w dalu mewn unrhyw flwyddyn i'w chymeradwyo drwy benderfyniad yr Aelodau yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau, ac ni fydd yn fwy na 5% neu 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr pa un bynnag sydd fwyaf;
- 8.5.3 gall y Pwyllgor Rheoli benderfynu na thelir llog mewn perthynas â daliadau cyfranddaliadau sy'n is na'r isafswm.
- 8.6 O ran dirwyn y Gymdeithas i ben, ni fydd gan ddeiliaid cyfranddaliadau unrhyw hawl ariannol y tu hwnt i daliad y llog sy'n weddill ac ad-daliad o gyfalaf cyfranddaliadau taledig.
- 8.7 Os bydd Aelod yn ymddiswyddo o fod yn aelod, yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Aelodau, neu'n cael ei ddiarddel yn unol â'r Rheolau, bydd y cyfranddaliadau a ddelir ganddynt ar ddyddiad ymddiswyddo, dileu neu ddiarddel yn troi'n fenthyciad, sy'n ad-daladwy i'r cyn-Aelod gan y Gymdeithas. Telerau'r ad-dalu fydd y rhai sy'n berthnasol i dynnu cyfalaf cyfranddaliadau'n ôl a nodir yn y Rheolau, a bydd hysbysiad o dynnu cyfranddaliadau'n ôl yn cael ei drin fel pe bai wedi'i roi ar adeg ymddiswyddo, dileu neu ddiarddel.



## 9 GWEINYDDOL

### Diben, amcanion a phwerau

- 9.1 Diben y Gymdeithas yw ymgymryd â busnes er budd y gymuned.
- 9.2 Amcanion y Gymdeithas, yn unol â'i Diben, yw:

Cynnal busnes er budd y gymuned trwy brynu'r dafarn yn Llandwrog a enwir yn Tŷ'n Llan, a sefydlu yno fusnes tafarn a chanolfan sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n gadarn yn ariannol er mwyn dod â phobl ynghyd a hwyluso'r ddarpariaeth o ystod o wasanaethau wedi'u diffinio gan y gymuned.

- 9.3 Mae gan y Gymdeithas y pŵer i wneud unrhyw beth sydd yn ei barn hi yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddibenion ei Hamcanion neu mewn cysylltiad â hwy.
- 9.4 Heb gyfyngu pŵer cyffredinol dan Reol 9.3, bydd gan y Gymdeithas y pŵer i:
  - 9.4.1 caffael neu waredu neu gymryd neu ganiatáu unrhyw fuddiant mewn eiddo a chymryd neu ganiatáu unrhyw fudd gwarant dros dir neu unrhyw un o asedau'r Gymdeithas gan gynnwys unrhyw arwystl morgais, arwystl ansefydlog neu warant o gwbl
  - 9.4.2 ymrwymo i gontractau;
  - 9.4.3 cyflogi staff;
  - 9.4.4 gwneud defnydd o wasanaethau gwirfoddolwyr;
  - 9.4.5 derbyn rhoddion neu fenthyciadau yn rhad ac am ddim ar gyfer ei Amcanion.
  - 9.4.6 yn amodol ar Reol 9.7, benthycia arian neu gyhoeddi unrhyw adnodd dyled arall neu ymrwymo i unrhyw drafodyn sy'n cael yr effaith o fenthycia ar delerau y mae'r Gymdeithas yn eu hystyried yn addas;
  - 9.4.7 yn amodol ar Reol 9.8, buddsoddi arian y Gymdeithas
- 9.5 Mae unrhyw bŵer sydd gan y Gymdeithas i dalu tâl a lwfansau i unrhyw berson yn cynnwys y pŵer i wneud trefniadau ar gyfer darparu, neu sicrhau darpariaeth pensiynau neu arian rhodd (gan gynnwys rhai sy'n daladwy fel iawndal am golli cyflogaeth neu golli neu leihau cyflog).
- 9.6 Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn adneuo nac yn cynnal unrhyw weithgaredd sy'n gyfystyr â 'gweithgaredd a reoleiddir' at ddibenion Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 a 2012 heb wneud cais am awdurdodiad yn gyntaf ar gyfer cynnal y fath weithgaredd a chael y caniatâd hwnnw.

### Benthycia

- 9.7 Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Rheoli, gall y Gymdeithas fenthycio arian gan ei haelodau ac eraill at ddibenion ei Hamcanion neu mewn cysylltiad â hwy, ar yr amod na fydd y swm sy'n ddyledus ar unrhyw un adeg yn fwy na £10,000,000.
  - 9.7.1 Bydd gan y Gymdeithas y pŵer i forgeisio neu godi tâl ar unrhyw eiddo, asedau ac ymrwymadau, ac i gyhoeddi stoc benthyciadau, dyledebau a gwarantau eraill am arian a fenthycwyd neu am unrhyw gontractau gan y Gymdeithas neu ei chwsmeriaid neu bersonau neu gorfforaethau sy'n ymwneud â'r Gymdeithas o dan ba sicrwydd neu amodau bynnag y mae'r Pwyllgor Rheoli yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i gael y cyfalaf sydd ei angen i gyflawni amcanion y gymdeithas.
  - 9.7.2 Ni fydd cyfradd y llog ar arian a fenthycir, ac eithrio ar arian a fenthycir drwy fenthyciad banc neu orddrafft neu o dŷ cyllid neu ar forgais gan gymdeithas



adeiladu neu awdurdod lleol, yn fwy na chyfradd resymol, angenrheidiol, ym marn y Bwrdd, i gael a chadw'r cyfalaf sydd ei angen i gyflawni amcanion y Gymdeithas, ac ni fydd ychwaith yn peryglu statws y Gymdeithas fel Gymdeithas Budd Cymunedol.

### **Buddsoddiadau**

- 9.8 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiad a osodir drwy benderfyniad unrhyw Gyfarfod Aelodau, gall y Pwyllgor Rheoli fuddsoddi unrhyw ran o gyfalaf a chronfeydd y Gymdeithas mewn unrhyw ffordd y bydd y Pwyllgor Rheoli o bryd i'w gilydd yn penderfynu gwneud hynny, gan gymryd cyngor buddsoddi lle y bo'n briodol ac yn unol â pholisi'r Gymdeithas ar fuddsoddiadau.

### **Llyfrau Cyfrifon**

- 9.9 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cadw llyfrau cyfrifon priodol mewn perthynas â thrafodion y Gymdeithas, ei hasedau a'i rhwymedigaethau, a bydd yn sefydlu ac yn cynnal system foddhaol o reoli'r llyfrau cyfrifon, y daliadau arian parod a holl dderbyniadau a nodiadau talu'r Gymdeithas yn unol â'r gyfraith.

### **Trin Elw**

- 9.10 Ni fydd elw'r Gymdeithas yn cael ei ddsbarthu naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol mewn unrhyw ffordd o gwbl ymhlith yr Aelodau, ond bydd yn cael ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- 9.10.1 cynnal cronfeydd darbodus wrth gefn;
- 9.10.2 taliadau cymdeithasol sy'n hyrwyddo amcanion y Gymdeithas;
- 9.10.3 gwariant wrth gyflawni Amcanion y Gymdeithas.

### **Cofnodion**

- 9.11 Bydd y Pwyllgor Rheoli'n cadw cofnodion priodol o holl Gyfarfodydd yr Aelodau, cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli ac unrhyw is-bwyllgorau. Bydd pob cofnod o'r fath yn agored i'w archwilio gan unrhyw Aelod ar unrhyw adeg resymol yn amodol ar unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd.

### **Setlo Anghydfodau**

- 9.12 Bydd y Gymdeithas yn cynnal ac yn dilyn polisi mewnol ar gyfer datrys anghydfod fel y'i cymeradwyir gan y Bwrdd.
- 9.13 Bydd unrhyw anghydfod, rhwng y Gymdeithas neu swyddog o'r Gymdeithas ar y naill law ac Aelod neu berson sydd wedi peidio â bod yn Aelod am ddim mwy na chwe mis ar y llaw arall, ynghylch dehongliad neu sy'n codi o'r rheolau yn unol â pholisi datrys anghydfod y Gymdeithas y cyfeirir ato yn rheol 9.12. Dim ond ar ôl archwilio pob llwybr arall (ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rheolau) y gellir cyfeirio'r anghydfod, yn niffyg cytundeb rhwng y partion i'r anghydfod, at berson a benodwyd gan Brif Weithredwr Sefydliad Plunkett, ar gais gan unrhyw un o'r pleidiau. Bydd y person a benodir felly yn gweithredu fel unig gymrodeddwr yn unol â Deddf Cyflafareddu 1996 neu Ddeddf Cyflafareddu (Yr Alban) 2010 a bydd penderfyniad y person hwnnw (gan gynnwys unrhyw benderfyniad ynghylch costau'r cyflafareddu) yn derfynol.

### **Cofrestr yr Aelodau**

- 9.14 Bydd y Gymdeithas yn cadw cofrestr o Aelodau yn ei swyddfa gofrestredig fel sy'n ofynnol gan y gyfraith. Bydd unrhyw Aelod sy'n dymuno archwilio'r gofrestr (neu unrhyw ran ohoni) yn rhoi dim llai na 14 diwrnod o rybudd ymlaen llaw i'r Gymdeithas gan wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd yn swyddfa gofrestredig y Gymdeithas.

### **Copiau o Reolau a Rheoliadau**

- 9.15 Bydd yr Ysgrifennydd yn darparu copi o'r Rheolau i unrhyw berson sy'n gofyn amdanynt, a gall godi swm (heb fod yn fwy na'r uchafswm a ganiateir gan y gyfraith) am ddarparu copi o'r fath. Oni bai bod y person hwnnw'n aelod nad yw wedi cael copi o'r rheolau o'r blaen.



## Indemniad y Pwyllgor Rheoli a'r Swyddogion

- 9.16 Ni fydd yn rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Rheoli, Swyddogion, Gweithwyr, tenantiaid a'r Ysgrifennydd sy'n gweithredu'n onest ac yn ddiwyll dalu unrhyw o'u hadnoddau eu hunain am atebolrwydd sifil personol a ysgwyddir wrth gyflawni eu swyddogaethau, neu pan honnir hynny, ac eithrio lle maent wedi gweithredu'n ddi-hid. Bydd unrhyw gostau sy'n codi fel hyn yn cael eu talu gan y Gymdeithas. Gall y Gymdeithas brynu a chynnal yswiriant yn erbyn yr atebolrwydd hwnnw er ei budd ei hun ac er budd aelodau'r Pwyllgor Rheoli a'r Ysgrifennydd.

### **Aelodau'n methdal ac yn marw**

- 9.17 Ar ôl i gais gael ei wneud gan gynrychiolydd personol Aelod a fu farw neu ymddiriedolwr methdaliad Aelod sydd wedi methdal, gellir defnyddio unrhyw eiddo y mae gan y cynrychiolydd personol neu'r ymddiriedolwr methdaliad hawl iddo yn unol â chyfarwyddyd y cynrychiolydd personol neu'r ymddiriedolwr methdaliad.
- 9.18 Caiff Aelod, yn unol â'r gyfraith, enwebu unrhyw berson neu bersonau y bydd eu heiddo yn y Gymdeithas ar adeg eu marwolaeth yn cael ei drosglwyddo iddynt, ond dim ond i'r graddau a ddarperir gan y gyfraith y bydd enwebiad o'r fath yn ddilys. Ar ôl cael prawf boddhaol o farwolaeth Aelod sydd wedi gwneud enwebiad o'r fath, bydd y Gymdeithas, yn unol â'r gyfraith, naill ai'n trosglwyddo neu'n talu swm llawn yr eiddo i'r person a enwebwyd.



## 10 DARPARIAETHAU CYCHWYN BUSNES

- 10.1 Aelodau cyntaf y Gymdeithas fydd y rhai a lofnododd y cais i gofrestru.
- 10.2 Yr Aelodau cyntaf fydd yn penodi'r Pwyllgor Rheoli cyntaf a fydd yn gwasanaethu tan Gyfarfod Blynyddol cyntaf yr Aelodau.
- 10.3 Ar ddiwedd Cyfarfod Blynyddol cyntaf yr Aelodau, bydd holl aelodau'r Pwyllgor Rheoli cyntaf yn ymdeol ond byddant yn gymwys i gael eu hethol i'r Pwyllgor Rheoli.
- 10.4 Bydd y rhai a etholir i'r Pwyllgor Rheoli yn dechrau yn eu swyddi yn syth ar ôl i Gyfarfod Blynyddol cyntaf yr Aelodau ddod i ben, i wasanaethu eu tymor cyntaf yn y swydd, a bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys iddynt er mwyn creu telerau cyfnodol
  - 10.4.1 Bydd traean o'r rhai a etholwyd felly, a gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau, yn gwasanaethu tan ddiwedd pedwerydd Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau.
  - 10.4.2 Bydd y traean a gafodd y nifer uchaf nesaf o bleidleisiau yn gwasanaethu tan ddiwedd trydydd Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau.
  - 10.4.3 Bydd gweddill y rhai a etholir yn gwasanaethu tan ddiwedd ail Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau.
- 10.5 Bydd y rhai a etholir o dan Reol 10.4 yn gymwys i gael eu haillethol ar ôl cwblhau eu tymor cyntaf yn y swydd yn unol â Rheol 5.



## 11 DARPARIAETHAU PONTIO

- 11.1 Wrth ddiwygio'r rheolau'n llwyr, bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys.
- 11.2 Bydd y rhai sy'n dal swydd fel aelodau etholedig o'r Pwyllgor Rheoli yn union cyn mabwysiadu'r rheolau hyn yn parhau yn eu swyddi tan Gyfarfod Blynyddol nesaf yr Aelodau, a bydd y canlynol wedyn yn berthnasol:
  - 11.2.1 os, o dan y rheolau a oedd yn gymwys cyn mabwysiadu'r rheolau hyn, fod aelodau o'r Pwyllgor Rheoli wedi eu hethol am gyfnod o dair blynedd, yna bydd aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli'n gwasanaethu am weddill cyfnod y swydd y cawsant eu hethol iddi;
  - 11.2.2 os, o dan y rheolau a oedd yn gymwys cyn mabwysiadu'r rheolau hyn, fod aelodau o'r Pwyllgor Rheoli wedi eu hethol am unrhyw gyfnod arall, bydd holl aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli yn ymdeol o'u swyddi ar ddiwedd Cyfarfod Blynyddol nesaf yr Aelodau; cynhelir etholiadau cyn Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau i lenwi'r swyddi gwag; a bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys:
    - 11.2.2.1 bydd traean o'r rhai a etholwyd, y bwriwyd y nifer uchaf o bleidleisiau iddynt, yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd gan ddod i ben ar ddiwedd pedwerydd Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau ar ôl mabwysiadu'r rheolau enghreifftiol hyn;
    - 11.2.2.2 bydd traean o'r rhai a etholwyd, y bwriwyd y nifer uchaf nesaf o bleidleisiau iddynt, yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd gan ddod i ben ar ddiwedd trydydd Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau ar ôl mabwysiadu'r rheolau enghreifftiol hyn;
    - 11.2.2.3 bydd gweddill y rhai a etholwyd, ac y bwriwyd y nifer isaf o bleidleisiau iddynt, yn gwasanaethu am gyfnod o flwyddyn gan ddod i ben ar ddiwedd ail Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau ar ôl mabwysiadu'r rheolau enghreifftiol hyn.
- 11.3 Bydd y rhai sy'n dal swydd fel Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd yn union cyn mabwysiadu'r rheolau enghreifftiol hyn yn parhau yn eu swydd tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Rheoli ar ôl Cyfarfod Blynyddol nesaf yr Aelodau. Ar ddechrau'r cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor Rheoli, byddant yn ymdeol o'u swyddi a bydd y Pwyllgor Rheoli yn ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd, yn unol â Rheol 5.11.
- 11.4 Bydd y person sy'n dal swydd yr Ysgrifennydd yn union cyn mabwysiadu'r rheolau enghreifftiol hyn yn parhau yn ei swydd oni bai neu hyd nes bod y Pwyllgor Rheoli yn penodi rhywun yn ei le / yn ei lle.



## ATODIAD

- 1 Dylid darllen a deall y Rheolau yn seiliedig ar yr hyn a nodir isod.
- 2 Mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol.
- 3 Mae unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cynnwys unrhyw ddeddfiadau, diwygiadau ac addasiadau dilynol, neu unrhyw is-ddeddfwriaeth.
- 4 Caiff penawdau adran, rheol a pharagraff eu cynnwys er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad y Rheolau.
- 5 Mae i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyr arbennig a nodir isod.

<b>"cwmni"</b>	cwmni sydd wedi'i gofrestru gydag atebolrwydd cyfyngedig o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 neu unrhyw Ddeddf Cwmnïau blaenorol, neu o dan unrhyw gyfraith yn y wlad y mae wedi ei leoli lle mae'n caffael yr hawl i fasnachu fel corff corfforaethol sydd ag atebolrwydd cyfyngedig
<b>"Awdurdod Ymddygiad Ariannol"</b>	Financial Conduct Authority, 25 The North Colonnade, Canary Wharf, London, E14 5HS
<b>"partner"</b>	person sy'n byw gydag un arall ar yr un aelwyd fel cwpl, beth bynnag fo'i ryw neu gyfeiriadedd rhywiol
<b>"Sefydliad Plunkett"</b>	Plunkett Foundation, The Quadrangle, Woodstock, Oxfordshire, OX20 1LH
<b>"cymdeithas"</b>	cymdeithas sydd wedi'i chofrestru ag atebolrwydd cyfyngedig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 neu o dan unrhyw gyfraith yn y wlad y mae wedi'i lleoli lle mae'n caffael yr hawl i fasnachu fel corff corfforaethol sydd ag atebolrwydd cyfyngedig



6 Cyflwynir y geiriau neu'r ymadroddion canlynol yn y rheol a bennir ym mhob achos.

<b>Geiriau neu Ymadroddion</b>	<b>Rheol</b>
Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau	4.1
Cyfrifon Blynyddol	6.1
Atodiad	1.7.1
Archwilydd	6.2
Cadeirydd	5.11
Pwyllgor Rheoli	2.1
Aelod	2.1
Cyfarfod yr Aelodau	4
Strategaeth Aelodaeth	3.1.1
Amcanion	9.2
Diben	1.3
Cofrestr Aelodau	3.2
Rheolau	1.1
Ysgrifennydd	2.1
Cymdeithas	1.1
Cyfarfod Arbennig yr Aelodau	4.2
Trysorydd	5.11
Is-gadeirydd	5.11